

# O'R WASG

LLYFRYDDIAETH  
CYLCHGRONAU CYMREIG

1735-1850

A BIBLIOGRAPHY OF WELSH  
PERIODICALS 1735-1850

Huw Walters

Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
1993

Pris: £22.00

Cyhoeddwyd rhai cannoedd o gylchgronau Cymraeg a Chymreig yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a thasg go anodd bellach yw ceisio rhoi ffigyrau manwl a phendant o'r teitlau a gyhoeddwyd. Byrhoedlog fu nifer o'r teitlau, ond parhaodd rhai, yn enwedig y prif gylchgronau enwadol, am ganrif neu fwy. Bu'r dreth stamp yn elfen bwysig yn niflanid cynnar llawer cylchgrawn, ac fe gafodd y ffaith fod cynifer o deitlau yn cystadlu â'i gilydd effaith andwyol ar eu cylchrediad. Yr oedd lluosogrwydd y teitlau ynddo ei hun yn arwydd o brysurdeb llenyddol enfawr, ond cecrus a chynhenllyd oedd cynnwys amryw ohonynt wrth iddynt gystadlu â'i gilydd am ddarlennwyr. Ac mae'n bwysig cofio i'r wasg gyfnodol Gymraeg a Chymreig ffynnu o'r tu allan i Gymru hefyd. Yn wir, amcangyfrifir bod tua deugain o deitlau wedi'u sefydlu i wasanaethu cymunedau Cymraeg y Taleithiau Unedig rhwng 1832 a 1900, heb sôn am y teitlau a gyhoeddwyd yn Awstralia a'r Wladfa yn ystod yr un cyfnod.

Yr hyn a geir yn y gyfrol hon yw rhestr ddisgrifadol o gylchgronau a gyhoeddwyd yng Nghymru, neu gylchgronau ac iddynt gysylltiadau Cymreig a gyhoeddwyd dramor, wedi eu trefnu yn ôl yr wyddor Gymraeg. At ei gilydd cafodd y llyfr print fwy na'i gyfran o sylw gan lyfryddwyr yn y gorffennol, ac y mae yna nifer o eitemau ar gael i alluogi llyfrgellwyr i restru'r eitemau hynny. Ar y llaw arall, fodd bynnag, ychydig iawn o sylw mewn cymhariaeth a roddwyd i gynnyrch y wasg gyfnodol, yn gylchgronau a phapurau newydd, tan yn ddiweddar.

At bwrpas y gyfrol hon diffinnir cylchgrawn fel cyhoeddiad y bwriadwyd iddo ymddangos, er ei sefydlu, am gyfnod amhenodol. O ran amllder cyhoeddi cynrychiolir ynddi gylchgronau pythefnosol, misol, daufisol, trimisol, chwarterol, hanner blyneddol a blyneddol. Ni chynhwysir newyddiaduron, almanaciau na llyfrau a gyhoeddwyd fel rhan o gyfres neu mewn rhannau. Yng nghorff y gyfrol rhestrir yn drefnus o dan air cyntaf y teitl cynharaf, ac eithrio'r fannod, bob cylchgrawn a sefydlwyd rhwng

1735 a 1850. Cynrychiolir yma wyth o deitlau y gellir eu hystyried fel 'ysbrydion'. Digwydd cyfeiriadau atynt mewn rhestrau a llyfryddiaethau cynharach ond ni lwyddwyd i ddod o hyd i gopiau ohonynt hyd yn hyn. Nodir pob amrywiad neu newid mewn teitl hefyd.

Nodir y dyddiad y cyhoeddwyd y cylchgrawn am y tro cyntaf ac, yn achos y rhai a redodd eu gyrfa, y dyddiad olaf, ynghyd â manylion am rif y rhifynnau a'r cyfrolau unigol. Rhestrir unrhyw gyfresi gwahanol y dechreuwyd eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd hefyd.

Mae'n bosibl mai adrannau pwysicaf pob cofnod yw'r rheini sy'n rhestru enwau golygyddion, argraffwyr a chyhoeddwyd y cylchgronau a ddisgrifir. Ceisir enwi pob unigolyn a fu'n golygu neu'n cyd-olygu, yn cyhoeddi ac yn argraffu pob un o'r rhifynnau. Lle bo hynny'n briodol rhestrir y ffynhonnell neu'r ffynonellau hynny a fu o gymorth wrth baratoi'r disgrifiad o'r

cylchgronau, boed yn erthygl, yn gofiant i olygydd, argraffydd neu gyhoeddwr, neu'n ymdriniaeth gyffredinol ar y cylchgrawn ei hun. Ar ddiwedd y gyfrol ceir pump o fynegeion. Mae'r tri cyntaf yn fynegeion i enwau golygyddion ac awduron, cyhoeddwyd ac argraffwyr. Yna rhestrir manau cyhoeddi ac argraffu yn y ddau arall.

Dyma restr odidog o'r cylchgronau Cymreig a gyhoeddwyd rhwng 1735 a 1850. Mae'n gyfrol werthfawr i'r hanesydd, y beirniad llenyddol, ymchwilydd ac i'r casglwr cyffredin.

\* \* \* \* \*

LLYFRGELL GENEDLAETHOL  
CYMRU: HANES YR ADEILAD

Daniel Huws

Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
1994

Pris: £3.50

Yn ôl barn llawer adeilad Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth yw un o adeiladau prydferthaf Cymru. Yn sicr

ddigon dyma'r llyfrgell â'r olygfa orau yn y byd. Dechreuwyd cynllunio'r adeilad yn 1908 ond yr oedd yn 1955 cyn i'r prif adeilad gael ei gwblhau a'i agor yn swyddogol.

Yn y llyfryn 24 tudalen hwn, sy'n cynnwys nifer dda o luniau trawiadol, mae Daniel Huws, a fu ar staff y Llyfrgell am 31 mlynedd nes iddo ymdeol yn 1992, yn olrhain datblygiad yr adeilad o'r cyfarwyddiadau a baratowyd yn 1908 ar gyfer y penseiri oedd am gymryd rhan yn y gystadleuaeth i gynllunio llyfrgell genedlaethol newydd hyd at adeiladu'r rhan ddiweddaraf yn 1993.

Nid yn aml y ceir hanes manwl cynllunio a chodi un o'n prif adeiladau cyhoeddus ac felly mae'r disgrifiad diddorol a darlennadwy hwn yn gyfraniad unigryw i hanes pensaernïaeth Gymreig. Mae'r ffotograffau a geir yn y llyfryn i gyd wedi eu tynnu o archifau'r Llyfrgell. Mae'r llyfryn ar gael yn Saesneg hefyd.

## LLYFRYDDIAETH CYLCHGRONAU CYMREIG BIBLIOGRAPHY OF WELSH PERIODICALS

### 1 ADOLYGYDD, YR

Teitl: Yr Adolygydd

[The Reviewer] An anti-teetotal periodical advocating moderation as opposed to total abstinence.

Rhifynnau: Rhif 1 (Maw. 1838)—Rhif 12 (Chwef. 1839).

Atodiad: *Presbeia Eirena, neu genadwri o heddwch, rhwng y titotal a'r cymhedrolwyr o gasgliad Philogathos Kai Eirena*. Caer-ynarfon: Argraffwyd gan Lewis Evan Jones, 1839, 20 tt. Atodiad i Rif 12 (Chwef. 1839).

Amllder: misol.

Golygydd: [William Williams].

Is-olygydd: [Hugh Hughes].

Cyhoeddwr: Lewis Evan Jones, Caernarfon.

Argraffydd: Lewis Evan Jones, Caernarfon.

Iaith: Cymraeg.

Maint: 29 x 22.

Pris: 1d.

Ffynonellau: Gwilym Rees Hughes, 42-3. W. Rhys Lambert, 474. R. Maldwyn Thomas, 60-1.

### 2 ADOLYGYDD, YR

Teitl: Yr Adolygydd 1850. Dilynwyd gan Y Beirniad 1859.

[The Reviewer] Literary with emphasis on theology, philosophy, education and reviews.

Is-deitl: cyhoeddiad trimisol, er egluro gwyddoriaeth, gwladymediaeth, llenyddiaeth a chrefydd.

Rhifynnau: 1<sup>1</sup> (Meh. 1850)—4<sup>13</sup> (Meh. 1853).

Amllder: chwarterol.

Golygyddion:

[Evan Jones], Meh. 1850—Maw. 1852.

[William Williams], Meh. 1852—Meh. 1853.

Cyhoeddwyd:

William Owen, Caerdydd, Meh. 1850—Maw. 1851.

Rees a Williams, Llanelli, Meh. 1851—Meh. 1853.

Argraffwyr:

William Owen, Caerdydd, Meh. 1850—Maw. 1851.

Rees a Williams, Llanelli, Meh. 1851—Meh. 1853.

Iaith: Cymraeg.

Maint: 21 x 14.

Pris: 1s. 6d.

Hysbysebion: 1t. cloriau yn unig.

Mynegeion: teitlau erthyglau pob rhifyn wedi eu rhestru fesul chwarter.

Ffynonellau: C. Taweltryn Thomas, *Cofiant darluniadol mewn rhyddiaith a chân i'r diweddar Barch. Evan Jones, (Ieuan Gwynedd)*, (Dolgellau, 1908), 197-212. Gwilym Rees Hughes, 47-8.

### 3 ADDYSGYDD


Teitl: Addysgydd

[The Educator] Intended for children and young people of the Sunday schools.

Rhifynnau: Rhif 1—Rhif 12 (Ion.—Rhag. 1823).

### ADDYSGYDD.

RHIF. XII.] RHAGFYR. [1823.



“ A phan gychwynonon o Tyrus, y dyncyblion all yn nghyd a'r gwregidda'r iasau, a'u hobyng-asant hyd allan o'r ddonas; ac wedi llosgi'wsg ar ein kiliau ar y trach, ni a weddiamon; ac wedi llosgi'wsg ar y trach, ni a ddringiamon i'r llong, a llystbau a dychweliant i'n gartref.—Act. 21. 5, 6.

PAUL, a chydag ef amry gyfeillion, oedd yma ar ei daith o dir Groeg i Jerusalem, lle y gwyddal fod rhwymau a bluderau yn ei aros. Yr oedd yn hysbys hefyd am y brodyr caredig yr oedd yn myned heibio iddynt, na chaf efe weled eu hwynebau Awyng; ood heb ddim diffyg o'r teimladau mwya'f tyner tung atynt